Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Rhiwbeina

Ffestri Capel Bethel
Maes Y Deri
Rhiwbeina
Caerdydd
CF14 6JJ

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhiwbeina

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Cylch Meithrin Rhiwbeina |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Sioned Jones |
| Person â gofal | Sarah Nickson ac Angharad Phelps-Jowers |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 14 |
| Nifer y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 09:00 – 12:30 |
| Gwasanaeth Dechrau’n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw’r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolwg cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/10/2016 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 30/06/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Monitro cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn rheolaidd er mwyn adnabod patrymau diogelu

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer profiadau digidol er mwyn cyfoethogi dysgu'r plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob plentyn lais cryf yn y lleoliad. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau hyderus am eu chwarae ac yn defnyddio’r amgylchedd yn annibynnol. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn parchu eu barn. Er enghraifft, mae plant yn dewis pa bryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp ac yn teimlo’n hyderus i fynegi eu hoffterau a’u dewisiadau.

Mae bron bob plentyn yn teimlo’n hapus, yn ddiogel ac yn ymgartrefu’n dda yn y lleoliad. Maent yn gyfarwydd iawn â threfniadau’r sesiwn ac yn symud rhwng gweithgareddau a phrofiadau dyddiol yn hyderus. Mae’r plant yn ffurfio perthnasoedd cynnes gydag ymarferwyr ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gysur. Maent yn dangos eu bod yn teimlo’n gysurus ac yn ymdopi’n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a’u gofalwyr.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio’n gadarnhaol ag eraill ac yn datblygu medrau cymdeithasol da. Maent yn cydweithio, yn rhannu adnoddau ac yn dangos parch at ei gilydd yn ystod eu chwarae. Mae llawer yn dechrau deall anghenion eraill ac yn dangos caredigrwydd ac ystyriaeth tuag at eu ffrindiau. Mae’r rhan fwyaf yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ac yn chwarae’n hapus gyda’i ffrindiau.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn profiadau sy’n ennyn eu diddordeb. Maent yn dangos chwilfrydedd, dychymyg a chreadigrwydd wrth archwilio’r amgylchedd a defnyddio adnoddau. Mae llawer yn dyfalbarhau’n dda ac yn canolbwyntio am gyfnodau sy’n briodol i’w hoedran. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau wrth gwblhau jig-so yn annibynnol ac yn awyddus i rannu eu llwyddiant gydag ymarferwyr. Mae hyn yn dangos bod plant yn magu hyder ac yn teimlo bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth da iawn. Maent yn rheoli tasgau dyddiol yn hyderus, gan gynnwys hunan-gofrestru, dewis adnoddau, defnyddio’r tŷ bach a chymryd cyfrifoldeb yn ystod amser byrbryd. Maent yn gwneud llawer drostynt eu hunain ac yn ymateb yn dda i gyfleoedd i helpu eraill. O ganlyniad, mae plant yn datblygu hyder, cyfrifoldeb ac ymdeimlad cryf o berthyn i’r lleoliad.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr atolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn gweithredu gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol er mwyn cadw plant yn ddiogel. Mae gan y lleoliad bolisi amddiffyn plant a diogelu cyfredol, ac mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Mae ymarferwyr yn hyderus ynghylch sut i weithredu petai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac mae gwybodaeth ddiogelu briodol ar gael i'w cefnogi. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i gefnogi ymatebion cyson i sefyllfaoedd megis plentyn ar goll neu blentyn heb ei gasglu. Mae trefniadau addas ar waith mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth, ac mae'r ddogfennaeth berthnasol yn gyfredol. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau yn briodol ac yn sicrhau bod rhieni'n cael eu hysbysu. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn monitro'r cofnodion yn rheolaidd i nodi unrhyw batrymau.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn annog arferion hylendid da yn gyson ac yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid cadarn wrth baratoi bwyd ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu iechyd plant ag alergeddau ac anghenion iechyd unigol. Mae trefniadau addas ar waith i reoli heintiau ac i gynnal amgylchedd glân ac iach. Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd cynnes a meithringar â'r plant ac yn adnabod eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn siarad yn dyner, yn dangos gofal a pharch ac yn ymateb yn sensitif i anghenion emosiynol plant. Er enghraifft, pan mae plant yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp, mae ymarferwyr yn eistedd gyda nhw a darllen llyfr neu edrych ar ffotograffau nes eu bod yn teimlo'n gyfforddus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol drwy ddefnyddio esboniadau clir, canmoliaeth a modelu medrau cymdeithasol da. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda, yn datblygu hunanhyder ac yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ag eraill.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u hoffterau, eu diddordebau a'u hanghenion unigol. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn sicrhau bod eu syniadau a'u profiadau yn cael eu gwerthfawrogi a'u hadlewyrchu yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, defnyddir diddordeb plant mewn dinosoriaid yn dilyn ymweliad â'r amgueddfa i lywio profiadau chwarae a dysgu pellach. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau a thrafodaethau grŵp ac yn dathlu eu cyflawniadau a'u diddordebau yn gyson. O ganlyniad, mae plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion, yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn ac yn ymgysylltu'n hyderus â'r profiadau sydd ar gael iddynt.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn y lleoliad yn effeithiol iawn ac yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu cynnes, cefnogol ac ysgogol sy'n rhoi'r plentyn wrth wraidd popeth. Drwy gyfuno profiadau wedi'u cynllunio'n ofalus â dysgu yn y foment, maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog ac ystyrlon sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion a diddordebau'r plant. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ymarferwyr a'r plant, ynghyd â defnydd medrus o arsylwi ac asesu, yn sicrhau bod bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn o'i fan cychwyn. O ganlyniad, mae plant yn datblygu'r hyder a'r medrau angenrheidiol i fod yn ddysgwyr annibynnol a brwdfrydig.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol drwy ddarparu profiadau sy'n adlewyrchu diddordebau'r plant a chyfleoedd dysgu digymell, gan roi'r plentyn wrth ganol y ddarpariaeth.  Er enghraifft, maent yn datblygu gweithgareddau creadigol yn dilyn ymweliad i'r amgueddfa. Mae hyn yn sicrhau bod y dysgu yn berthnasol ac yn ystyrlon.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant arwain eu chwarae eu hunain ac yn fedrus wrth ymateb i ddysgu'r plant. Er enghraifft, wrth i blant berfformio ar lwyfan, mae ymarferwyr yn ymateb drwy ychwanegu adnoddau megis meicroffonau. Maent yn cysylltu'r chwarae â phrofiadau diwylliannol fel Tafwyl a'r Eisteddfod er mwyn cyfoethogi'r chwarae.

Mae cynllunio tymhorol a diwylliannol wedi'i sefydlu'n dda, gyda gweithgareddau'n adlewyrchu digwyddiadau fel Diwali, Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi. Mae ymweliadau â'r gymuned leol a phrofiadau allanol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach ac yn cefnogi dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad iaith yn effeithiol, gyda llyfrau a gweithgareddau yn cael eu dewis yn ofalus i gefnogi themâu ac i gynnwys rhieni yn y dysgu. Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio'n sensitif ac effeithiol gyda'r plant, gan weithio'n gyson ar lefel y plentyn a meithrin perthnasoedd cynnes a chefnogol. Maent yn cyfarch plant yn barchus ac yn darparu sicrwydd emosiynol cryf, yn enwedig i'r rhai sydd angen cefnogaeth wrth gyrraedd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu effeithiol i gynnal diddordeb y plant, gan gynnwys amser cylch rhyngweithiol, defnyddio arwyddion, a gweithgareddau ysgogol fel "Beth sydd yn y bocs?". Maent yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu iaith, gan fodelu patrymau iaith yn gyson.

Nodwedd gryf iawn o'r addysgu yw'r defnydd effeithiol o ddysgu ymatebol. Mae ymarferwyr yn manteisio ar ddigwyddiadau naturiol, megis buwch goch gota yn glanio ar blentyn, i ddatblygu sgiliau rhifedd a gwybodaeth wyddonol drwy gwestiynu a thrafod. Mae hyn yn creu profiadau dysgu cofiadwy ac ystyrlon i'r plant. Er hyn, nid ydynt yn

gwneud defnydd digon effeithiol o adnoddau digidol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant ymhellach.

Mae canmol cyson ac adeiladol yn cyfrannu'n gadarnhaol at hunanhyder y plant. Mae ymarferwyr yn annog plant i drafod a myfyrio ar eu gweithgareddau eu hunain. Mae prosesau asesu yn datblygu'n gadarn. Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol drwy arsylwadau rheolaidd, gan ddefnyddio nodiadau byrion i gofnodi cynnydd mewn sgiliau allweddol.

Mae ymarferwyr yn cynhyrchu adroddiadau defnyddiol i rieni gan ganolbwyntio ar lesiant, datblygiad a chynnydd.  Mae'r ymarferwyr hefyd yn gweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi plant unigol lle bo angen.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel, croesawgar a threfnus sy'n cefnogi lles a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn gweithredu trefniadau cadarn i sicrhau diogelwch plant, gan gynnwys rheoli mynediad i'r safle, goruchwylio'r ardaloedd chwarae a chwblhau gwiriadau ac asesiadau risg rheolaidd. Mae trefniadau addas ar waith ar gyfer ymwelwyr, teithiau ac anghenion unigol plant. Mae arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau diogelwch perthnasol yn gyfredol. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar amgylchedd lle mae eu diogelwch a'u lles yn cael blaenoriaeth glir.

Mae'r amgylchedd mewnol wedi'i drefnu'n dda ac mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael. Mae'r ardaloedd chwarae wedi'u trefnu'n bwrpasol fel bod plant yn gallu symud yn rhwydd, gwneud dewisiadau ac ymgymryd â chwarae annibynnol. Mae ymarferwyr yn paratoi'r amgylchedd yn ofalus cyn i blant gyrraedd ac yn sicrhau bod adnoddau ar gael yn hygyrch. Mae gwaith y plant a dathliadau personol yn cael eu harddangos yn amlwg, sy'n helpu plant i deimlo eu bod yn perthyn i'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae adnoddau a chyfarpar wedi'u storio ar lefel isel ac mae pegiau hygyrch ar gael ar gyfer eiddo personol y plant. Mae trefniadau'r amgylchedd yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i ddefnyddio adnoddau'n hyderus, gwneud dewisiadau drostynt eu hunain a datblygu eu medrau hunangymorth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at ystod eang o adnoddau a phrofiadau chwarae o ansawdd da sy'n ennyn eu diddordeb a'u dychymyg. Mae'r amgylchedd yn cynnwys amrywiaeth o ardaloedd chwarae pwrpasol, gan gynnwys ardaloedd darllen, adeiladu, chwarae rôl a chwarae synhwyraidd. Mae'r adnoddau yn cefnogi chwarae dychmygus ac archwiliol yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio'r ardal gaffi a'r adnoddau chwarae rôl yn hyderus wrth ddatblygu eu syniadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi eu dychymyg ac yn eu helpu i ddatblygu medrau cymdeithasol.

Mae'r ardal allanol yn gryfder yn y lleoliad. Mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol a dychmygol drwy ymchwilio, arbrofi a chydweithio wrth chwarae. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd allanol mewn modd sy'n annog plant i ddatblygu eu syniadau eu hunain ac i fod yn archwilwyr hyderus. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio'r ardal bridd yn greadigol i greu tŷ ar gyfer malwoden ac yn defnyddio'r tŷ bach twt i wneud te i oedolion fel rhan o'u chwarae dychmygol.

Mae arweinwyr yn darparu adnoddau a phrofiadau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth a diwylliannau gwahanol. Mae'r lleoliad yn dathlu gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol ac yn darparu adnoddau sy'n adlewyrchu cymdeithas amrywiol. Mae hyn yn dechrau helpu plant i ddatblygu parch ac ymwybyddiaeth o'r byd ehangach.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn gosod lles a datblygiad y plant wrth galon pob agwedd o'u gwaith. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau posib. Maent wedi llwyddo i greu awyrgylch gofalgar, cyfeillgar a chynnes lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff y weledigaeth hon ei gweithredu'n llwyddiannus drwy ddarparu amgylchedd ysgogol sy'n ennyn chwilfrydedd y plant ac yn cefnogi eu datblygiad. Mae disgwyliadau uchel yr arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm. Mae'r ymarferwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi gan yr arweinwyr, y rhieni a'r plant.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Rhoddir sylw priodol i weithdrefnau recriwtio diogel, sy'n cael eu gweithredu'n gywir. Mae arweinwyr yn monitro gwaith yr ymarferwyr yn rheolaidd drwy arsylwadau a sesiynau goruchwylio adeiladol sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus.

Darperir cyfleodd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu eu medrau, ehangu eu harbenigedd a sicrhau cymwysterau perthnasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at sefydlogrwydd y gweithlu ac at gynnal safonau cyson uchel ar draws y ddarpariaeth. Mae arweinwyr hefyd yn gwneud defnydd priodol o gyllid a grantiau i gyflogi staff ac i wella'r amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i'r plant.

Mae gan arweinwyr systemau hunanwerthuso effeithiol sy'n seiliedig ar ystod o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwadau, adborth gan rieni ac asesiadau proffesiynol. Defnyddir y wybodaeth hon yn bwrpasol i adnabod cryfderau'r ddarpariaeth a meysydd i'w datblygu. Mae adroddiadau gan yr athrawes ymgynghorol yn adlewyrchu'r ddarpariaeth yn gywir ac yn dangos bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gryfderau a blaenoriaethau gwella.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o gyllid i gefnogi datblygiadau strategol yn enwedig wrth wella’r ardal allanol. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar amgylchedd dysgu cyfoethog sy’n cynnig ystod eang o brofiadau gwerthfawr. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn manteisio ar hyfforddiant perthnasol, gan gynnwys meysydd megis cynllunio, asesu a dulliau addysgu effeithiol.

Mae arweinwyr yn meithrin partneriaethau cryf. Mae perthynas agos a chefnogol gyda rhieni, ac mae arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol â’r gymuned leol drwy gyfranogi mewn digwyddiadau cymunedol. Mae partneriaeth buddiol gyda’r ysgol gynradd leol a gwasanaethau proffesiynol eraill yn cefnogi trefniadau pontio llwyddiannus ac yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2026